## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 5 (TREBAN) I GYFFORDD 7 (CEFN DU), YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 5 a Chyffordd 7, Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 4 rhan a dim ond un rhan o'r gefnffordd fydd ar gau ar unrhyw adeg.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Hydref 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) rhwng 3 ac 8 Hydref 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 5 (TREBAN) TO JUNCTION 7 (CEFN DU), ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 5 and Junction 7, Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The works scheme will be split into 4 sections and only one section of the trunk road will be closed at a time.

The Order comes into force on 3 October 2022. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 3 – 8 October 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o brif gerbytffordd yr A55 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 5 (Treban) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7 (Cefn Du), Ynys Môn.

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 5, y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 6 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7.

Y darn o brif gerbytffordd yr A55 tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7 (Cefn Du) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 5 (Treban), Ynys Môn.

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7, y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 5.

<u>Y llwybr arall</u>

Y llwybr arall ar gyfer traffig ar yr A55 sy'n teithio tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yw ar hyd yr A5 tua'r dwyrain/tua'r gorllewin.

## SCHEDULE

The length of the main A55 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 5 (Treban) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 7 (Cefn Du), Anglesey.

The lengths of the eastbound entry slip road at Junction 5, eastbound exit and entry slip roads at Junction 6 and eastbound exit slip road at Junction 7.

The length of the main A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 7 (Cefn Du) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 5 (Treban), Anglesey.

The lengths of the westbound entry slip road at Junction 7, westbound exit and entry slip roads at Junction 6 and westbound exit slip road at Junction 5.

<u>Alternative route</u>

The alternative route for A55 eastbound and westbound traffic is via the eastbound/westbound A5.